**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 2 CHWEFROR, 2021**

**CYNHALIWYD Y CYFARFOD DROS ZOOM**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng. Mark Davies (cadeirydd) | Cyng. Owenna Davies |
| | Cyng. Emyr Jones | Cyng. Ceri Jones |
| | Cyng. Llŷr Evans | Cyng. Sharon Thomas |
| | Cyng. Julie Davies | Cyng. Teifi Evans |
| | Cyng. Maldwyn Lewis | |

**Ymddiheuriadau** Cyng. Evan John Jones.

**Clerc** Margaret Jones

| **Eitem ar yr Agenda** | | **Gweithredu** | **Gan bwy** | **Erbyn pryd** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gyng Evan John Jones a Chyng Roger Davies. Dymunwyd gwellhad buan i Gyng Roger Davies gan ei fod yn sâl gyda Covid. | | |
| 2 | Datgelu Buddiannau | Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. | | |
| 3 | Cofnodion cyfarfod mis Ionawr | Roedd pob Cynghorydd wedi cael copi o gofnodion cyfarfod mis Ionawr. Cynigiodd Cyng Ceri Jones eu bod yn gofnod cywir, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Julie Davies a chytunodd pawb a oedd yn bresennol arnynt.<br><br>**Materion yn Codi** – Bydd y Clerc yn sicrhau bod y fideo hyfforddiant defnyddio Diffibriliwr wedi cael ei lanlwytho i'r wefan. Cadarnhaodd y Clerc hefyd bod codau post wedi cael eu hanfon ymlaen at Clic Ceredigion ynghylch y panel sydd wedi torri yn y lloches bws yng Nghroes-lan a'r tyllau yn y ffordd ger cyffordd yr hen ysgol ym Mrongest.<br>O ran llythyr i'r Swyddfa archwilio yn ceisio adroddiad am y cynnydd – adroddodd y Clerc bod llythyr wedi cael ei anfon ond ni chafwyd ymateb hyd yn hyn.<br>Deliwyd â'r holl daliadau o'r cyfarfod diwethaf.<br>Mae Cyng Ceri Jones wedi trwsio'r fainc bren yn Ffostrasol. | | |
| 4. | Adroddiad y Cynghorydd Sir | Adroddodd Cyng. Maldwyn Lewis:-<br>**Ffostrasol** – bod llifogydd wedi digwydd ger Arosfa, Ffostrasol o ganlyniad i'r glaw trwm a gafwyd yn ddiweddar. Roedd Cyngor Ceredigion wedi bod allan a'r gobaith yw eu bod wedi datrys y broblem. Yn ogystal, ger Arosfa, Ffostrasol – nid oedd golau stryd yn gweithio, ond mae wedi cael ei drwsio erbyn hyn ac mae'n gweithio.<br><br>**Maesllyn** – Adroddwyd pryderon gan bentrefwyr bod sbwriel yn cael ei adael yn y cwm ger y llwybr troed ym Maesllyn. Roedd pobl leol wedi casglu'r sbwriel a daflwyd yno, a ffoniwyd y Cyngor, a chasglwyd y sbwriel. Gofynnir i bawb gadw golwg ac fe allai camerâu CCTV fod yn ddewis os bydd y broblem hon yn parhau. Hoffai'r Cynghorwyr Cymuned ddiolch i aelodau'r cyhoedd a oedd wedi neilltuo amser i | | |

gasglu'r sbwriel hwn.  Mae'n ymddangos ei bod yn broblem gyffredin mewn cymunedau gwledig, ond nid oes esgus dros wneud hyn, a gofynnir i bawb barchu ein cymunedau a chadw golwg am unrhyw bobl neu gerbydau sy'n tipio'n anghyfreithlon yn ein cymunedau.

**Etholiad** – Cynhelir etholiad ar 6 Mai, 2021 am gynrychiolydd yn y Senedd yng Nghaerdydd ac am Gomisiynydd yr Heddlu.

**Sgamiau** – adroddir am fwy a mwy o sgamiau ac mae'r genhedlaeth hŷn a phobl agored i niwed yn cael eu targedu.  Sgamiau cyffredin ar hyn o bryd yw cael negeseuon testun yn honni eu bod gan fyrddau iechyd lleol, gan gynnig brechlyn Covid a gofyn am daliad.

**Ffigurau Covid Ceredigion** – y ffigurau diweddaraf = 34.4 fesul 100,000.  Mae'r ffigwr hwn yn is na'r hyn a welwyd mewn adroddiadau blaenorol, ond rhaid i ni barhau i fod yn ofalus, gan wneud teithiau hanfodol yn unig.

**Plotiau Fforddiadwy** – ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir Ceredigion yn treialu cynllun 'plotiau fforddiadwy' yn y Sir.  Lleolir y plotiau yng Nghiliau Aeron ac mae'r tir a neilltuwyd ar gyfer hwn yn dir y mae'r Cyngor yn berchen arno.  Bernir y gwerthir y plotiau am tua £25,000 a bydd prynwyr yn gallu adeiladu eu cartref eu hunain neu gyflogi adeiladwyr lleol i wneud y gwaith adeiladu.  Nid oedd y Cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw dir y gallai ddod ar gael yn yr ardal hon, ond byddai modd cofnodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.

**Rhydlewis –** roedd y perchennog wedi delio â'r goeden bwdr yn Felincwm.

5. Gohebiaeth

**Calonnau Cymru** – cafwyd neges e-bost yn hysbysu Cynghorau Tref a Phlwyf o'r ffaith bod grant o £200 ar gael er mwyn sicrhau a gosod gorsafoedd Diffibrilwyr mewn trefi a phentrefi.  Cyfeiriwyd at grant o £200 yn y neges e-bost.  Ymatebir i'r e-bost gan ofyn am gost yr offer, gan gymryd y byddai'r grant ar gael i ni. **Clerc**

**Urdd Gobaith Cymru** – cafwyd e-bost a llythyr ar ffurf copi caled gan yr Urdd yn gofyn am gymorth ariannol – o ganlyniad i Covid19, bu'n rhaid canslo'r Eisteddfod a fyddai wedi cael ei chynnal yng Ngheredigion yn 2020, yn ogystal â'r holl ddigwyddiadau eraill a drefnir gan yr Urdd.  Trafodwyd y llythyr gan y Cynghorwyr ac roedd pawb yn cytuno bod yr Urdd yn bwysig iawn i'r ardal hon gan ei fod yn cyflogi nifer fawr o bobl yn Llangrannog, ac mae'n bwysig iawn hefyd i'r bobl ifanc ac i ysgolion Cymraeg lleol yr ardal, gan ei fod yn annog ac yn rhoi cyfle i'r plant a'r bobl ifanc gystadlu mewn pob math o chwaraeon, eisteddfod a gweithgareddau.  Cynigiodd Cyng. Owenna Davies y dylem roi £200 i'r Urdd, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng. Maldwyn Lewis ac roedd pawb yn cytuno.

| | | |
|---|---|---|
| 6. | Cynllunio | Ni chafwyd unrhyw geisiadau cynllunio newydd erbyn dyddiad y cyfarfod hwn.<br><br>Cafwyd llythyr ynghylch cais cynllunio A190750 Fferm Moc, Ffostrastol.<br>Datgelwyd budd gan Gyng. Maldwyn Lewis.<br>Apêl – dim newidiadau ers y tro diwethaf. |
| 7. | Ariannol | Roedd C.A.B. Aberteifi wedi anfon neges e-bost ymlaen yn gofyn am gymorth. Nododd Cyng Maldwyn Lewis bod CAB yn brysur iawn a bod mwy fyth o alw am eu cyngor yn ystod y pandemig, felly cynigiodd y dylem gyfrannu, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng. Owenna Davies. Cytunodd y Cynghorwyr roi £200. |
| | Taliadau | CThEM – 1 siec am y swm o £42.60<br>Cyflog y Clerc - £169.80 |
| | Banc NatWest | Awgrymodd Cyng. Owenna Davies y dylid anfon balans banc ymlaen at bob Cynghorydd ar yr un pryd â'r Agenda er mwyn sicrhau bod pawb yn gwybod y balans yn y banc ar ddechrau pob cyfarfod. Roedd pob Cynghorydd yn cytuno. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Banc i drosglwyddo arian o'r Cyfrif Wrth Gefn Busnes i'r Cyfrif Cyfredol, ac y byddai'n gwneud ymholiadau ynghylch bancio ar-lein hefyd.<br>**Clerc** |
| | Praesept 2021-22 | Adroddodd y Clerc ei bod hi wedi cael neges e-bost gan Gyngor Sir Ceredigion yn eu hatgoffa o'r ffaith bod angen llenwi ffurflen y Praesept a'i dychwelyd cyn gynted ag y bo modd. Bu'r Cynghorwyr yn trafod y mater ac roedd pawb yn cytuno y dylai'r Clerc lenwi'r ffurflen am y swm o £10,000 a'i dychwelyd i C.S.C. **Clerc** |
| 8. | Materion Ardal | **Maesllyn** – Adroddodd Cyng. Maldwyn Lewis bod y 'bocs graean' wedi cyrraedd Maesllyn.<br><br>**Ffostrasol** – Gan bod yn rhaid i nifer o bobl gerdded yn y gymuned nawr er mwyn gwneud ymarfer corff, nodwyd bod pobl leol wedi bod yn casglu sbwriel yn ein pentrefi. Mae'r Cynghorwyr yn dymuno diolch i bawb sy'n gwneud hyn o'u gwirfodd ac sy'n helpu i gadw ein pentrefi a'n cymunedau yn lân.<br><br>**Coed-y-bryn** – Adroddodd Cyng. Julie Davies yr amharwyd ar y gwasanaeth casglu sbwriel yn y pentref. Casglwyd bagiau ailgylchu ond ni chasglwyd y gwydr a'r bagiau du. Roedd Cyng. Davies wedi adrodd am y mater i'r Cyngor, ac roedd wedi cael yr ateb arferol ar ffurf llythyr safonol. Ffoniodd am y mater hefyd, gan mai hwn oedd yr ail dro nad oedd sbwriel wedi cael ei gasglu yn y gymuned. Llwyddodd Cyng. Davies i siarad â'r adran gywir yn y Cyngor, ac roedd y sbwriel wedi cael ei gasglu.<br><br>**Rhydlewis** – Cwblhawyd y gwaith o drwsio'r ffordd rhwng Dolanog a Phendre.<br>Mae arwydd 'Rhydlewis' ar rhiw garej Ddol wedi cael ei anharddu a'i dolcio ac mae'n edrych yn anniben. Adroddir wrth CLIC am y mater. |

Adroddodd Cyng. Ceri Jones ei bod yn ymddangos bod coed ger Dyffryn Ceri yn pydru. Adroddir wrth CLIC am y mater, gan awgrymu y dylai meddyg coed ymchwilio i'r mater ac adrodd yn ôl i ni.

Adroddir am y materion uchod wrth CLIC gan **Y Clerc**

9. Unrhyw fater arall

Oherwydd y bydd yn rhaid i gyfarfodydd barhau dros Zoom am beth amser eto, trafodwyd a chytunwyd y dylid ei brynu am flwyddyn i ddechrau. Roedd y Cadeirydd, Cyng. Mark Davies wedi ymchwilio i'r ffioedd tanysgrifio ac mae pecyn blwyddyn yn costio £119.90. Cynigiwyd hyn gan Gyng. Emyr Jones, eiliwyd y cynnig gan Gyng. Julie Davies ac roedd pawb yn cytuno. Bydd y Cadeirydd, Cyng. Mark Davies yn talu gan mai ef fydd gwesteiwr y cyfrif, a bydd y Cyngor Cymuned yn ad-dalu'r gost i'r Cadeirydd.

Cydymdeimlo – Estynnwyd cydymdeimlad â theulu y diweddar Mr. David Davies, Dolanog, a oedd wedi gwasanaethu fel Cynghorydd ar Gyngor Cymuned Troedyraur am sawl blynedd. Anfonir cerdyn cydymdeimlo at Mrs. Davies a'r Teulu. **Clerc**

Ers gosod arwyneb ffordd newydd ger croesffordd Blaencrymant/Blaenwenllan, adroddodd Cyng. Emyr Jones bod dŵr glaw yn cronni yno nawr. Adroddir wrth CLIC am hyn. Cod post SA44 5TY **Clerc**

10. Cyfarfod Nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 2 MAWRTH, 2021 am 7.30 p.m., unwaith eto dros Zoom.

Gan nad oedd unrhyw faterion pellach i'w trafod, caewyd y cyfarfod gan y Cadeirydd am 9.10 p.m.

10. Eitemau ar gyfer y Cyfarfod Nesaf

Ymddiheuriadau
Datgelu Buddiannau
Cofnodion y cyfarfod blaenorol/Materion yn Codi
Cadarnhau Cofnodion
Adroddiad y Cynghorydd Sir
Gohebiaeth
Cynllunio
Cyllid – Ffurflenni Grant
- Cynllunio'r Gyllideb
- Archwiliad
- Taliadau

Materion Ardal
Dyddiad y cyfarfod nesaf
Unrhyw fater arall